

## Achwyn yn erbyn Llywodraeth Cymru

1. Cynhaliwyd gyfres o arddangosfeydd gan Lywodraeth Cymru o 7 hyd 26 Medi eleni (2015).
2. Ar 17 Medi, codais achwyn â Llywodraeth Cymru – gallwch weld y ffurflen gwyno fan hyn: <https://twitter.com/Naturiaethwr/status/644437762943361024>
3. Mae cynsail y gwŷn i'w weld mewn blogpost fan hyn: <https://naturiaethwr.wordpress.com/2015/09/11/lond-drol-o-gelwyddau/>
4. Honiad difrifol a wnaethpwyd ganddo i, sef nid yn unig bod swyddogion Llywodraeth Cymru wedi camarwain pobl Cymru, ond eu bod wedi gwneud hynny yn fwriadol.
5. Mae cywirdeb – ai peidio – yr honiad am gamarwain i'w weld yng nghynnwys y blog. Yn fy nhyb i, mae'r dystiolaeth yn hollol glir ac yn ddiamwys.
6. Ond sut mynnu bod swyddogion yn camarwain *yn fwriadol*?
7. Cofiw'n nid ar hap a damwain y cesglir ystadegau o'r math yma. Mae'r bobl sydd y tu ôl i'w cyhoeddiad yn arbenigwyr yn y maes: does neb yn gwybod mwy am ystadegau i ymwneud â chynllun M4 Llywodraeth Cymru na'r sawl sy'n gwneithio yn y maes. Felly mi oedd y swyddogion hynny yn gwybod bod yr ystadegau yn camarwain, yn anghywir neu yn rhoi darlun annheg, pan wnaethpwyd y penderfyniad i'w arddel
8. Fel y nodais yn fy achwyn, fe gymerodd hi sawl awr o waith i ymchwilio'r ystadegau a chyhoeddi erthygl oedd yn dweud i'r gwrthwyneb. Dwi hefyd â phryder mawr bod Llywodraeth Cymru wedi gwario llawer o arian (ni wyddaf y swm) i ddarbwyllio pobl o blaid y datblygiad hynod ddadleuol, a hynny ar sail rhith.
9. Pobl Cymru hefyd sydd wedi dioddef fel canlyniad i'r camarwain yma. Yn ariannol, oherwydd yr holl wariant ar arddangosfa oedd wedi seilio ar wybodaeth anghywir, ac yn feddylol, oherwydd y bydd llawer wedi arddel safbwynt, erbyn hyn, nas cefnogir gan ystadegau cadarn.
10. Mynnais, fel canlyniad, bod swyddogion wedi torri Côt Ymddygiad gweision sifil. Fel y gwelwch yn y blogpost, mae'r Côt hwnnw, sy'n perthyn i bob un gwas sifil, yn gosod disgwyliadau a dyletswyddau, gan gynnwys:
  - Gonestrwydd: bod yn onest ac yn agored (mae'n rhaid i chi beidio â chamarwain)
  - Gwrthrychedd: seilio'ch cyngor a'ch penderfyniadau ar ddadansoddiadau trylwyr o'r dystiolaeth (mae'n rhaid i chi beidio ag anwybyddu ffeithiau 'anghyfleus')
11. Mae'n hollol glir i mi fod y Côt wedi'i dorri.
12. Mawr oedd fy ngobeithion am "Ymddiheuriad llawn a chadarnhad y bydde'r Llywodraeth yn tynnu'r gwybodaeth anghywir".
13. Siiom oedd yr ymateb a dderbyniais ar 6 Hydref (gweler atodiad pdf). Cyfeiriwyd i at Adran 10 o'r

Ilyfryn yma <http://gov.wales/docs/det/publications/150903-m4-can-information-brochure-cy.pdf> - sef yr union gyhoeddiad mi oeddwn i wedi codi cwŷn yn ei gylch.

14. Mae sawl pryder yn codi fel canlyniad i'r achos hon.
15. Yn gyntaf, nid oedd unrhyw driniaeth ystyrllon o fy achwyn wreiddiol gan Lywodraeth Cymru. Er fy mod i wedi tynnu sylw at fy mhryderon fod y Côt Ymddygiad wedi'i dramgwyddo, nas ymchwiliwyd yr honiad difrifol hwnnw (hyd y gwelaf i wrth ymateb y Gweinidog).
16. Yn ail, mae'r ffordd yr ymdriniwyd â fy achwyn yn tanseilio hygreddd y gyfundrefn achwyn – uwchlaw y methiant i ymchwilio'r honiadau eu hun. Mi luniwyd yr ymateb gan rhywun (y Gweinidog) oedd â diddordeb personol a phroffesiynol mewn sicrhau bod y darlun mwyaf positif oll yn cael ei gyfleu i'r cyhoedd. Petai hi wedi penderfynu bod ei swyddogion wedi camarwain y cyhoedd, mi fydde cwestiynau wedi codi ynghylch ei goruwchwylliaeth o'u gweinidogaeth. Dyw'r drefn ddim i'w weld yn dryloyw nag yn ddi-lygredd.
17. Fel canlyniad, ni theimlaf fod modd i fi dderbyn gyfiawnder gan Lywodraeth Cymru yn y mater yma. A dyma'r rheswm i fi godi'r achwyn hon â chi.